

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

16 Gorffennaf 2021

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 5\) \(Cymru\) 2020](#) ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i Senedd Cymru

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur er mwyn atal lledaeniad y coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 1984, a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn

yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y [Memorandwm Esboniadol](#) ar gyfer y prif Reoliadau.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad sy'n parhau i ieuchyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19.

Roedd y prif Reoliadau a wnaed ar 18 Rhagfyr 2020 yn nodi cyfyngiadau a gofynion a fydd yn berthnasol i bedair gwahanol Lefel Rhybudd a chaiff y Lefelau Rhybudd eu hamlinellu yn y [Cynllun Rheoli'r Coronafeirws](#). Diweddarwyd y cynllun hwn ar 14 Gorffennaf 2021.

Ar 7 Mehefin dechreuodd Cymru gyfan symud i Lefel Rhybudd 1 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws, fel yr oedd mewn grym bryd hynny. Bu oedi o ran symud i Lefel Rhybudd 1 yn llwyr oherwydd bod cyfraddau'r coronafeirws yn cynyddu o ganlyniad i'r "amrywiolyn delta".

Er bod nifer yr achosion o'r coronafeirws yn cynyddu yn y gymuned mae ein cyfraddau brechu uchel yn golygu bod nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn parhau'n isel a gallwn bellach symud yn llwyr i Lefel Rhybudd 1 Cynllun Rheoli'r Coronafeirws.

Bydd y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud i Atodlen 1 y prif Reoliadau er mwyn cwblhau'r symud graddol at Lefel Rhybudd 1 y Cynllun Rheoli o 17 Gorffennaf:

- Gall unrhyw chwe pherson, neu aelodau unrhyw ddwy aelwyd, gyfarfod dan do mewn cartrefi preifat a llety gwyliau, hyd yn oed os nad yw'r bobl hynny'n aelodau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig.
- Gall digwyddiadau dan do sydd wedi'u trefnu ar gyfer hyd at 1,000 o bobl sy'n eistedd neu 200 sy'n sefyll gael eu cynnal, ar yr amod y bodlonir gofynion rheoliad 16 y prif Reoliadau.
- Gall canolfannau sglefrio iâ ailagor.

Bydd Atodlen 1 i'r prif Reoliadau hefyd yn cael ei ddiwygio er mwyn:

- Gwaredu'r terfyn blaenorol o 30 o ran nifer y bobl a all ddod ynghyd mewn safleoedd awyr agored (ond mae'n rhaid i'r bobl sy'n gyfrifol am safleoedd a reoleiddir yn yr awyr agored barhau i gydymffurfio â rheoliad 16 y prif Reoliadau drwy gymryd camau i sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws ar y safle).
- Caniatáu i hyd at 30 o blant (o unrhyw oedran, nid dim ond plant ysgolion cynradd fel ynghynt) ddod ynghyd mewn llety gwyliau neu llety teithio er llesiant, datblygiad neu addysg y plant (ee ymweliadau preswyl dan oruchwyliaeth).

Bydd Rheoliadau 16 ac 17 y prif Reoliadau hefyd yn cael eu diwygio. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i bob Lefel Rhybudd, a byddant yn parhau mewn

grym ar ôl i Gymru symud i Lefel Rhybudd Sero, fel y nodir yn y fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Rheoli'r Coronafeirws a gyhoeddwyd ar 14 Gorffennaf.

Mae Rheoliad 16 y prif Reoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am y safle a reoleiddir gymryd camau i sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Ar hyn o bryd mae'r camau'n cynnwys gweithredu pob mesur rhesymol er mwyn sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal rhwng pobl ar y safle. Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu'r camau fel nad yw'r gofyniad i weithredu pob mesur rhesymol i gynnal pellter o 2 fetr ond yn berthnasol i safleoedd dan do. Fodd bynnag, bydd yn parhau'n ofynnol i'r bobl sy'n gyfrifol am y safle i weithredu mesurau rhesymol er mwyn cyfyngu ar unrhyw gyswllt corfforol agos rhwng pobl ar y safle. O'r herwydd, bydd y gofyniad i gadw pellter corfforol yn parhau'n un o becyn o fesurau y gallai fod angen eu cyflwyno er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Mae Rheoliad 16 hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynnal asesiad risg coronafeirws. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r gofynion fel ei bod hi bellach yn ofynnol i gyflogwyr hefyd ddarparu gwybodaeth i'w gweithwyr ynghylch y peryglon a bennwyd yn yr asesiad a'r mesurau atal a diogelu sy'n cael eu gweithredu. Golyga hyn y bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i weithwyr.

Mae rheoliad 17 y prif Reoliadau yn nodi mesurau penodol y mae'n rhaid i'r bobl sy'n gyfrifol am safleoedd trwyddedig eu gweithredu. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r gofynion fel nad oes yn rhaid i'r bobl sy'n mynychu cynullïadau neu ddigwyddiadau a reoleiddir ar safleoedd o'r fath bellach eistedd wrth gael bwyd neu ddiod. Yr un yw'r sefyllfa ar gyfer mathau eraill o ddigwyddiadau: dangos ffilm, digwyddiad chwaraeon byw a pherfformiad theatrig byw. Mae'r gofyniad i eistedd mewn safleoedd trwyddedig yn parhau mewn grym o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder. Fodd bynnag, paratowyd ac ystyriwyd asesiad effaith cryno fel rhan o'r broses adolygu 21 diwrnod ar gyfer y coronafeirws er mwyn llywio'r penderfyniadau a wnaed. Caiff yr asesiad effaith cryno ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.